# Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol

# Arweiniad

## Rhagarweiniad

1.0 Paratowyd yr arweiniad hwn gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CCGCC) gyda chymorth gan fudd-ddeiliaid yn cynnwys Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Cyngor Gofal Cymru (CGC) yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cafodd y Comisiynydd Plant, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wahoddiad i gymryd rhan. Comisiynwyd yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru sydd hefyd wedi cyfrannu at y cynnwys. Diben yr arweiniad yw cynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi eu hadroddiadau gwasanaethau cymdeithasol blynyddol er mwyn:

- Cydymffurfio â’r gofynion adrodd newydd sydd wedi eu nodi mewn rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol; a
- Hyrwyddo arfer gorau fel bod gwelliannau bob blwyddyn yn nhermau safon yr adrodd ac o ran awdurdodau’n cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1.1 Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheini sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, yr unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

1.2 Mae’r canllawiau mewn dwy adran, gydag:

- Adran 1 yn cynnwys gwybodaeth gefndir a chanllawiau ar baratoi’r adroddiad blynyddol.
- Adran 2 yn nodi’r templed y mae angen i awdurdodau lleol ei ddefnyddio yn ôl y rheoliadau, a hynny er mwyn paratoi eu hadroddiadau blynyddol ar wasanaethau cymdeithasol. (Gweler paragraff 3.4 isod)

1.3 Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu a gellir eu haddasu o bryd i'w gilydd yng ngoleuni profiad, ac mewn ymgynghoriad â dinasyddion, awdurdodau lleol a budd-ddeiliaid allweddol eraill.

1.4 Mae'r gofyniad i ddefnyddio’r templed hwn wrth baratoi adroddiad blynyddol yn dechrau yn y flwyddyn adrodd 2017-18. Bydd hyn yn galluogi adroddiadau blynyddol i ymateb i wybodaeth a geir yn yr asesiad o boblogaeth fydd yn cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf (anghenion gofal a chefnogaeth ac anghenion gofalwyr i gael cymorth dan adran 14 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) a ddisgwylir ym mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol ei chael yn ddefnyddiol i ddechrau dilyn y templed hwn ar gyfer y flwyddyn adrodd drosiannol 2016-17 fel ffordd o brofi eu systemau ac i weld pa mor barod ydynt am y gofynion adrodd newydd

1.5 Yn y canllawiau hyn:

- Mae “dylai” a “gallai” yn ganllaw yn unig ond mae “rhaid” yn golygu bod yna <u>ofyniad</u> mewn cod ymarfer, canllaw statudol neu ddeddfwriaeth.
- Mae’r “cyfarwyddwr/cyfarwyddwyr” yn golygu cyfarwyddwr/cyfarwyddwyr statudol y gwasanaethau cymdeithasol
- Mae “adroddiad” yn golygu adroddiad blynyddol yr awdurdod lleol ynghylch cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- Mae “Deddf GCaLl” yn golygu Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae “Deddf RhacA” yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Mae “Ddeddf LlCDC” yn golygu Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mae “Rheoliadau” yn golygu is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd dan bwerau yn Neddf GCaLl lle mae angen mwy o fanylion neu gyfarwyddeb i weithredu’r Ddeddf.
- Mae “Canllawiau Statudol” yn golygu canllawiau a gyhoeddwyd dan bwerau yn Neddf GCaLl sy’n nodi’r gofynion i gwblhau swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf
- Mae “cod” yn golygu Cod Ymarfer a wnaed dan bwerau yn Neddf GCaLl

# Adran 1 – Canllawiau

**Cyd-destun ar gyfer y Gofynion Adrodd Newydd**

2.0 Mae'r Ddeddf GCaLl yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r egwyddor o les wrth wraidd y Ddeddf, yn ogystal â hyrwyddo annibyniaeth pobl a'u hatal rhag gwaethygu o ran anghenion gofal a chymorth. Rhaid i ymarferwyr ystyried barn unigol pobl a'u cefnogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Y nod yw rhoi llais a rheolaeth i'r unigolyn a'r hyn y mae'r unigolyn yn dymuno ei gyflawni yn ei fywyd - canlyniadau personol - yn gysylltiedig â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd.

2.1 Ynghyd â Deddf LlCDC, mae Deddf GCaLl hefyd yn gosod disgwyliadau a gofynion i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau i bobl; gan gydnabod bod sefydliadau lluosog yn diwallu anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae rheoliadau hyn yn nodi' r angen i gwblhau asesiadau o anghenion llesiant y boblogaeth fel sail ar gyfer cynllunio ymatebion gwasanaethau yn y dyfodol.

2.2 Mae'r Ddeddf GCaLl yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth hygyrch, cyngor a chymorth (GCC) i bob unigolyn o fewn eu hardal leol a fydd, yn ei dro, yn helpu i hyrwyddo ymyrryd ac atal yn gynnar.

2.3 Mae Rhan 3 (Asesu Anghenion) a Rhan 4 (Diwallu Anghenion) y Ddeddf GCaLl yn darparu ar gyfer newid a datblygiad sylweddol mewn arfer proffesiynol ac yn pwysleisio'r angen am asesiad sy'n llai biwrocrataidd, mwy cymesur, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cael ei gynhyrchu ar y cyd a threfniadau asesu cymhwysedd cenedlaethol newydd sy'n symlach. Mae proses cynllunio gofal mwy cyson yn cychwyn pan fydd asesiad yn canfod nad oes modd darparu gwasanaethau heb gynllun neu os yw'r unigolyn angen cefnogaeth barhaus i gael mynediad i'r gwasanaethau hyn.

2.4 Mae gweithredu'r Ddeddf GCaLl yn galw am newid diwylliant sylweddol o fewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a phartneriaid mewnol ac allanol, proses y bydd angen i gyfarwyddwyr fynd ati i'w rheoli a'i harwain yn gadarn. Ymhlith prif themâu'r newid hwn mae:

- model sy'n seiliedig ar alluogi a chryfder yn hytrach na model diffyg
- canlyniadau personol, nid ffitio pobl i mewn i wasanaethau yn unig
- perthynas fwy cyfartal rhwng gweithwyr rheng flaen a dinasyddion
- sicrhau bod gan ofalwyr cymorth os ydy eu hasesiad yn dweud bod ei angen
- dull mwy creadigol o gefnogi pobl gan dynnu ar adnoddau cymunedol ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth ac atal yn gynnar
- modelau gwasanaeth newydd e.e. sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a mentrau cymdeithasol
- mwy o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau ar draws disgyblaethau a sefydliadau.
- cydnabod nad yw "busnes fel arfer" yn opsiwn

2.5 Mae hyn oll yn gwneud datblygiad a hyfforddiant y gweithlu gofal cymdeithasol ar bob lefel hyd yn oed yn fwy pwysig i gefnogi gweithrediad y newidiadau a'r heriau yn y Ddeddf GCaLl ar y rheng flaen ac ar lefelau rheoli.

2.6 Mae sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn caniatáu datblygu rhaglen gydlynol i ddatblygu'r gweithlu er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Ddeddf GCaLl yn llawn ac yn effeithiol.

2.7 Mae'r Ddeddf RhacA yn gosod ansawdd gwasanaethau a gwelliannau wrth wraidd rheoleiddio. Mae'n atgyfnerthu amddiffyniad ar gyfer y rheini sydd ei angen ac mae'n sefydlu system reoleiddio sydd yn unol â'r Ddeddf GCaLl. Mae'r Ddeddf RhacA yn diwygio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac yn cynnig ymateb cadarn i'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn methiannau blaenorol yn y system.

2.8 Mae adroddiad blynyddol AGGCC 2015/16 yn amlinellu ymagwedd newydd yr Arolygiaeth yn cynnwys:

- system gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu ag aelodau etholedig a swyddogion, monitro perfformiad rheolaidd a'u cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau craffu drwy Gyfarfodydd Adolygu Perfformiad;
- rhaglen arolygu craidd yn dechrau yn 2016 lle y bydd AGGCC yn arolygu dimensiynau allweddol o wasanaethau oedolion a phlant ym mhob ardal awdurdod lleol, gan ganolbwyntio ar wella, a;
- fframwaith arolygu newydd i gefnogi'r rhaglen, wedi'i hadeiladu ar sail y chwe safon ansawdd sy'n cynrychioli lles pobl o dan y Ddeddf GCaLl.

**Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.0 Mae'r gofynion adrodd blaenorol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan 6 o'r "C*anllawiau Statudol ar Swyddogaethau ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol*" (Llywodraeth Cymru Mehefin 2009) yn cael eu disodli o ganlyniad y Ddeddf GCaLl a'r Ddeddf RhacA.

3.1 Mae'r gofynion newydd ar gyfer adroddiad gwasanaethau cymdeithasol wedi eu gwasgaru dan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a chodau. Rhoddir mwy o fanylion yn Atodiad 1 gyda chyfeiriadau a hypergysylltiadau i'r codau perthnasol a'r canllawiau statudol.

3.2 Yn nhermau penawdau yn unig y gofynion yw bod rhaid i bob awdurdod lleol baratoi adroddiad blynyddol ynghylch cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- gwerthusiad o berfformiad o ran cwblhau swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys gwersi a ddysgwyd (Rhan 8 – Y Cod ar swyddogaethau'r cyfarwyddwr)
- sut y mae'r awdurdod wedi cyflawni'r 6 safon ansawdd ar gyfer canlyniadau lles (mewn cod am fesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol a wnaed o dan a145 Deddf GCaLl 2014)

- data ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â chyflawni canlyniadau lles (sydd hefyd wedi ei nodi yn y cod ar fesur perfformiad).
- i ba raddau y mae'r awdurdod wedi cyflawni gofynion o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf GCaLl fel y nodir mewn codau ar wahân sy'n cwmpasu asesu anghenion a bodloni anghenion.
- amcanion ar gyfer hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol gan gynnwys y rhai a nodwyd gan asesiadau o anghenion y boblogaeth dan adran 14 y Ddeddf GCaLl
- sicrwydd ynghylch
    - trefniadau strwythurol sy’n galluogi rheolaeth dda ac atebolrwydd cryf
    - gweithio mewn partneriaeth effeithiol drwy Fyrddau Partneriaeth
    - trefniadau diogelu
- perfformiad yr awdurdod lleol o ran trafod ac ymchwilio i gwynion
- ymatebion i unrhyw arolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- diweddariad ar y ddarpariaeth Gymraeg
- sut mae’r awdurdod wedi cynnwys pobl (yn cynnwys plant) wrth fynd ati i lunio’r adroddiad.

3.3 O ran yr adroddiad, rhaid:

- ei gyhoeddi “*cyn gynted ag sy’n ymarferol i wneud hynny”* yn dilyn y flwyddyn y cyfeiria ati
- rhaid i’r cyfarwyddwr gyflwyno’r adroddiad i’r cyngor
- anfon copi o’r adroddiad at Weinidogion Cymru
- sicrhau bod yr adroddiad ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

3.4 Mae'r Ddeddf RhacA yn rhoi isadrannau newydd sy'n ymwneud â'r adroddiad, yn y Ddeddf GCaLl. Un o'r rhain yw bod "rhaid iddo fod ar ffurf a ragnodir gan reoliadau". Mae *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf. Rhagnodedig) (Cymru) 2016* yn mynnu bod awdurdodau lleol yn defnyddio templed sy'n ymddangos ar wefan Llywodraeth Cymru. Dyma'r templed yn Adran 2 o'r canllawiau hyn. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r templed os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Arddull a Chynnwys**

4.0 Wrth ymateb i'r gofynion hyn mae angen ysgrifennu'r adroddiad mewn ffordd y gall amrywiaeth o gynulleidfaoedd ei ddarllen a'i ddeall yn hawdd, yn cynnwys:

- defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a phawb sy'n teimlo effaith gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r swyddogaethau cysylltiedig y maen nhw yn eu cyflawni, fel bod modd egluro effaith y gwasanaethau hynny
- y cyhoedd yn gyffredinol sydd â diddordeb yn yr hyn y mae eu hawdurdod lleol yn ei wneud, sut y mae'n perfformio a sut y mae eu harian yn cael ei wario
- aelodau etholedig ac eraill sy'n ymwneud â phrosesau craffu
- partneriaid yr awdurdod gan gynnwys y ddau bartner ffurfiol ac eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector y mae angen iddynt ddeall amcanion a blaenoriaethau rhaglen yr awdurdod lleol

- rheoleiddwyr (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynwyr Statudol); a,
- Llywodraeth Cymru

4.1 Bydd gan awdurdodau lleol brofiad sylweddol eisoes o ran diwallu anghenion yr amrywiol gynulleidfaoedd. Gan dynnu ar y profiad hwnnw, awgryma y bydd angen i'r adroddiad gynnwys y nodweddion allweddol a nodir isod:

Cryno

4.2 Mae paragraff 88 o God Rhan 8 yn dweud y dylai'r cyfarwyddwr sicrhau *"nad yw'r adroddiad yn rhy hir a'i fod yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd glir a chryno."*

4.3 Mae angen i'r adroddiad gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol fel y nodir yn y templed. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi terfyn penodol ar gyfer nifer y tudalennau na nifer y geiriau. Awgrymwn uchafswm o 25 o dudalennau fel canllaw. Gall adroddiad hirach olygu diffyg ffocws, gall fod yn llai tebygol o gael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd a gallai guddio negeseuon allweddol am amcanion sydd o flaenoriaeth i'r awdurdod lleol a gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall. Ni ddylai'r adroddiad ganolbwyntio ar wybodaeth am y broses ond dylai gyfleu'r daith bwysig a'r effaith ar ddinasyddion.

4.4 Ni all adroddiad trosolwg ymdrin â phob agwedd o'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud yn ei wasanaethau cymdeithasol a'i swyddogaethau cysylltiedig. Yn hytrach, dylai amlygu meysydd o flaenoriaeth i wella canlyniadau ar gyfer unigolion a gwelliannau ym mherfformiad yr awdurdod lleol sy'n gysylltiedig â'r 6 safon ansawdd. Y mater allweddol yw 'beth oedd y canlyniadau ar gyfer y bobl?'. Gall amcanion sy'n flaenoriaeth i'r awdurdod lleol newid o flwyddyn i flwyddyn. Gall y sylwebaeth esbonio nad yw'r ffaith bod rhai meysydd penodol wedi cael eu dewis fel amcanion sydd o flaenoriaeth yn golygu nad oes dim yn digwydd mewn mannau eraill. Gellir cyfeirio'r darllenydd at adroddiadau eraill fel adroddiadau lefel gwasanaeth neu adroddiadau gan benaethiaid gwasanaethau ', cynlluniau corfforaethol a chynlluniau cymorth busnes os ydynt angen mwy o fanylion.

4.5 Dylai'r adroddiad gyfeirio'n briodol at adroddiadau eraill fel y rheini gan Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Diogelu ond dylai osgoi ailadrodd gormod o'r manylion.

Hygyrch

4.6 Mae arddull yn fater lleol ond gan fod yr adroddiad yn ddogfen gyhoeddus mae angen ei hysgrifennu mewn iaith syml, bob dydd, heb jargon Saesneg a Chymraeg. Dylai awdurdodau barhau a'u harferion presennol a sicrhau bod amrywiaeth o fformatau ar gael ee dogfen hawdd ei darllen yn ôl anghenion lleol. Dylid mynd ati i egluro unrhyw dermau sy'n debygol o fod yn anghyfarwydd i'r cyhoedd a dylid osgoi acronymau cyn belled ag y bo modd.

4.7 Dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r adroddiad ar wefan yr awdurdod ac yn hawdd ei gyrchu gan bartneriaid, a, chyn belled ag y bo modd, o wefannau perthnasol eraill megis fforymau pobl hŷn, mudiadau i ddefnyddwyr a gofalwyr, canolfannau cyngor ar bopeth, pyrth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac ati

4.8 Dylai'r adroddiad gael ei ddylunio'n ddeniadol gan wneud defnydd da o liw a lluniau. Dylai'r fersiwn ar y we fod yn hawdd i'r darllenydd lywio trwyddo. Gall sylwadau neu ddyfyniadau sy'n dangos profiadau pobl yn y maes gwasanaethau cymdeithasol fod yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, dylai'r rhain gael eu defnyddio mewn ffordd gytbwys, nid dim ond i dynnu sylw at y mwy ffafriol, ond hefyd dylent ddangos yr heriau. Mae fersiynau electronig yn cynnig cyfleoedd i ddod â'r adroddiad yn fyw drwy gynnwys clipiau sain neu fideos byr.

4.9 Yn yr adroddiad, mae'n ofyniad bod awdurdodau lleol yn cynnwys sut yr aethpwyd ati i gynnwys dinasyddion wrth lunio'r adroddiad. Dengys yn flaenorol bod darparu cyfleoedd i ddinasyddion ddylanwadu neu gynorthwyo i gyd-gynhyrchu dyluniad yr adroddiad yn arwain at well cynnyrch a mwy o foddhad o du'r defnyddwyr.

4.10 Mae'n arfer da i lunio fersiwn "her" o'r adroddiad felly'n caniatáu i bartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill i gynnig sylwadau adeiladol cyn mynd ati i gwblhau'r adroddiad.

Adroddiad integredig sy'n adlewyrchu ffordd integredig o weithio

4.11 Mae ymgysylltu â phartneriaid â dinasyddion yn llinynnau cyffredin sy'n rhedeg drwy bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod yn ei wneud. Er y dylid eu cynnwys o dan adroddiadau ar gynlluniau a chynnydd yn erbyn y 6 safon ansawdd yng nghorff yr adroddiad, mae pennod ar wahân sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol amlinellu pa mor ganolog yw'r dinesydd. Yn yr un modd, dylid trin ymateb yr awdurdod i adroddiadau AGGCC fel rhan o weithgarwch craidd. Byddai hefyd yn arfer da i gynnwys ymatebion yr awdurdod i adroddiadau gan Gomisiynwyr a Chyrff Statudol. Ar yr amod bod yr un naratif yn wir, fodd bynnag, mae'n dderbyniol i gyfeirio at ddatganiadau cynharach yn yr adroddiad ynghylch sut y mae'r awdurdod wedi mynd ati i gyflawni'r safonau ansawdd.

4.12 Mae'r Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth) yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol adrodd yn flynyddol ar sut y cyflawnwyd eu hamcanion fel bwrdd. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath i Weinidogion Cymru erbyn 1 Ebrill 2017, a'i gyhoeddi. Gan fod cymaint o weithgarwch ar y cyd y byrddau yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ni ellir cynhyrchu adroddiadau'r Bwrdd Partneriaeth a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ar wahân i'w gilydd. Felly, bydd angen i awdurdodau lleol gyfeirio at gynlluniau a chynnydd yn adroddiadau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac i'r gwrthwyneb. Mae angen i hyn hefyd gynnwys cyflenwi cyfrifoldebau statudol y Bwrdd Partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol lleol. Gall hyn fod yr un mor berthnasol o ran ystyried deunydd sydd wedi ei gynnwys yng nghynlluniau ac adroddiadau blynyddol y Bwrdd Diogelu.

Corfforaethol

4.13 Er bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr gyflwyno'r adroddiad i'r cyngor, adroddiad yr awdurdod lleol ar berfformiad ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ydyw. Mae angen iddo esbonio sut mae swyddogaethau ehangach yr awdurdod lleol megis trafnidiaeth, tai, addysg a hamdden wedi cyfrannu a sut y byddant yn parhau i gyfrannu at gyflawni canlyniadau lles unigolion

Amserol

4.14 Dywed paragraff 80 o God Rhan 8 bod *“rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol i wneud hynny ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol*". Os bydd yr holl brosesau ategol yn gweithio'n dda, argymhellir bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Gorffennaf. Dylid nodi na fydd pob data perfformiad wedi cael ei ddilysu'n allanol erbyn yr adeg hon.

Agored a Gwerthusol

4.15 Mae'r adroddiad yn un o'r offerynnau y mae’r awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i hybu hunan-wella a dangos atebolrwydd. Dylai'r adroddiad roi cyfrif agored a gonest sy'n amlygu nid yn unig y llwyddiannau ond yr heriau a'r meysydd sydd o flaenoriaeth i'w gwella a nodwyd drwy broses hunan-arfarnu sy'n drwyadl a di-amddiffynnol.

4.16 Bydd y newid ar y fath raddfa a ragwelir yn y Ddeddf GCaLl yn cymryd sawl blwyddyn i'w weithredu'n llawn ac anodd fydd dod o hyd i lwyddiant mewn rhai meysydd yn y blynyddoedd cynnar. Dylai adroddiad 2016-17 nodi'r amcanion gwella sydd o flaenoriaeth iddo yn 2017-18. O adroddiad 2017-18 ymlaen dylai'r adroddiad nodi i ba raddau y diwallwyd yr amcanion gwella a gynlluniwyd. Ni ddylai fod unrhyw fylchau yn y stori. Lle amlygwyd maes oedd yn flaenoriaeth i'w wella yn y flwyddyn flaenorol, dylai adroddiad y flwyddyn ganlynol ddweud yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn y maes hwnnw. Lle methodd yr awdurdod lleol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, i gyflawni ei amcan gwella dylai'r adroddiad ddweud hynny ac esbonio'r hyn sy'n cael ei wneud o ganlyniad.

4.17 Yn erbyn pob safon ansawdd, dylai’r adroddiad ddweud:

- yr hyn a fwriadodd yr awdurdod lleol i’w wneud yn y flwyddyn flaenorol
- sut y llwyddodd
- pa wahaniaeth a wnaed i ganlyniadau lles y bobl
- beth yw’r amcanion sydd o flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

4.18 Mae angen gofal arbennig wrth adrodd y data perfformiad yn erbyn y 6 safon ansawdd (fel y nodir yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol). Nid yw datgan y data mewn ffordd ddienaid yn ddefnyddiol ac nid yw'n dangos atebolrwydd. Dylai awdurdodau roi’r cyd-destun ac esbonio beth mae'r data yn ei olygu. Er enghraifft, ydy materion yn gwella neu'n gwaethygu? Yna mae angen i'r awdurdod esbonio beth sydd angen gwneud o ganlyniad. Yn yr un modd, nid yw datganiad fel "cawsom llai o gwynion yn ymwneud â ......" yn ddefnyddiol. Yn hytrach, dylai'r adroddiad ystyried yr hyn y mae'r awdurdod wedi'i ddysgu o'r cwynion a dderbyniodd, a'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad, a pha effaith a gafodd hyn ar y bobl.

4.19 Mae Cod Rhan 8 y Ddeddf GCaLl ar swyddogaeth y cyfarwyddwr yn gofyn am gyfranogiad pobl y mae angen darparu gofal, cymorth a gwasanaethau ataliol ar eu cyfer, yn nyluniad a gweithrediad y gwasanaethau hynny. Mae'r ffocws ar ganlyniadau lles a chyrhaeddiad ehangach gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwasanaethau ataliol a hawliau gwell ar gyfer gofalwyr yn awgrymu y bydd angen i awdurdodau lleol adlewyrchu sut y maent

wedi cryfhau eu trefniadau i ymgysylltu dinasyddion i werthuso gwasanaethau a'u heffaith.

4.20 Dylai awdurdodau lleol adlewyrchu profiadau dinasyddion yn eu hunan arfarniad drwy gydol yr adroddiad. Dylid cofio bod y Cod ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau lleol rhoi cyfle i bobl leisio'u barn ar eu profiadau yn ogystal â chasglu data ansoddol angenrheidiol, waeth pa ddull a ddewiswyd i gasglu'r data ".Bwriad rhoi cyfrif o'r fath yw:

- darparu cyfrif cyfoethog wrth asesu effeithiolrwydd y gofal a'r cymorth
- helpu i sicrhau bod profiadau pobl yn sbarduno gwelliannau
- helpu awdurdodau lleol i ganfod meysydd i'w gwella ac arfer da
- dangos ymgysylltiad effeithiol gydag eiriolwyr ac aelodau o deuluoedd

4.21 Mae arweiniad pellach ar ymgysylltu'r cyhoedd i'w gael ar:

- Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Cyfranogeth Cymru 2011)
- canllawiau Comisiynydd Pobl Hŷn.

**Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol**

5.0 Mae'r Cod ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi:

- y 6 safon ansawdd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cyflawni i gyflawni eu dyletswyddau dan y ddeddf GCaLl
- y camau gweithredu y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu dilyn i gyflawni'r safonau ansawdd; a
- y data meintiol ac ansoddol sy'n gysylltiedig â'r safonau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei gasglu, adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru yn ei gylch a'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

5.1 Rhaid adrodd ar y data am y tro cyntaf yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2016 – Mawrth 2017.

5.2 Bydd awdurdodau lleol wedi nodi y bydd angen i beth o'r data sy'n ofynnol ddod o rannau eraill o'r awdurdod, fel addysg, hamdden a thai, a gan bartneriaid eraill gan gynnwys byrddau iechyd lleol. Bydd angen iddo gael ei gynnwys yn y trefniadau rheoli prosiectau wrth fynd ati i lunio'r adroddiad.

**Adlewyrchu Amgylchiadau Lleol**

6.0 Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn creu pwrpas, cyfeiriad a disgwyliad cenedlaethol, pendant. Mae llawer o fanylion y rheoliadau a'r codau yn atgyfnerthu'r angen am fwy o gysondeb i ddefnyddwyr gwasanaethau o fewn meysydd ac ar draws Cymru o ran eu profiad o wasanaethau cymdeithasol a sut y cyflawnir canlyniadau gofal a chymorth.

6.1 Fodd bynnag, mae'r gofynion newydd hefyd yn glir ynghylch yr angen am atebolrwydd lleol a pherchnogaeth llywodraeth leol ar yr agenda newydd hon. Mae hyn yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fanteision lleoli gwasanaethau cymdeithasol o fewn llywodraeth leol a bod y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan annatod o gyfrifoldeb corfforaethol llywodraeth leol yn nhermau hyrwyddo lles, cynhwysiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.

6.2 Mae'r ddeddf GCaLl yn pwysleisio pwysigrwydd amgylchiadau lleol a rhanbarthol a dull cyd-gynhyrchu, e.e. lles, asesiad o anghenion y boblogaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth, cynllunio gofal, diogelu ac ati, ond mae'r pwyslais a roddir ar "rhaid" yn hytrach na "gall" neu "dylai" yn helpu i ddarparu cydbwysedd rhwng gofynion cenedlaethol ac amgylchiadau lleol/ rhanbarthol.

6.3 Mae'r sail partneriaeth statudol ar gyfer llywodraeth leol yn cefnogi'r angen am fwy o gydweithio rhanbarthol a newid sylweddol, ymarferol e.e. cydrannu cyllidebau ar gyfer swyddogaethau lletyau i bobl hŷn ar draws rhanbarthau.

6.4 Tra'n adlewyrchu'r gofynion adrodd cenedlaethol, mae'r templed yn adran 2 yn rhoi lle a chyfle i awdurdodau lleol gynnwys mentrau lleol a rhanbarthol. Wrth ymateb i'r gofynion adrodd blynyddol, gallai cyfarwyddwyr ystyried y fframwaith canlynol i adlewyrchu cydbwysedd cenedlaethol / rhanbarthol / lleol:

- Mentrau penodol i fodloni amgylchiadau lleol yn cynnwys brandio gwasanaethau yn lleol (ee anghenion trefol, gwledig, ieithyddol ac ati)
- Enghreifftiau o Bartneriaethau Rhanbarthol fel gwybodaeth, cyngor a chymorth, comisiynu, hyfforddiant ac ati.
- Cydweithio gyda byrddau iechyd lleol a phartneriaid eraill
- Cymryd rhan mewn mentrau cenedlaethol i sicrhau cysondeb drwy Gymru gyfan, fel cyflawni rhaglenni gwaith Grant Gweddnewid, datblygu’r gweithlu, Dewis Cymru a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

6.5 Gall hefyd fod cyfleoedd i adroddiadau adlewyrchu enghreifftiau o rannu a mabwysiadu syniadau a newyddbethau lleol i ddangos datblygiadau effeithiol ac effeithlon mewn gwasanaethau nad ydynt yn ‘dechrau o’r dechrau’ yn ddiddiwedd.

**Unioni Adrodd i’r Safonau Ansawdd Cenedlaethol**

7.0 Mae’r templed yn Adran 2 o’r canllaw hwn yn nodi’r penodau ar gyfer yr adroddiad a’r adran fwyaf arwyddocaol yw unioni’r ffordd y mae awdurdodau lleol yn adrodd ar y safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer lles:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni.
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

- Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau iach a diogel yn y cartref, gyda'r teulu ac yn bersonol.
- Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i sicrhau gwell lles economaidd, gwell bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

7.1 Pennod 4 yw'r adran sylweddol o'r adroddiad ac mae'n gofyn i awdurdodau lleol adrodd ar eu cynnydd a'u cynlluniau yn erbyn y 6 safon ansawdd sy'n adlewyrchu'r ystod o anghenion yn ei gyfanrwydd. Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau bod:

- yr adroddiad yn rhoi sicrwydd clir ac uniongyrchol bod yr awdurdod yn gweithio yn ôl y safonau ansawdd gofynnol a mynd i'r afael â'r gweithgareddau ategol yn ôl gofynion y cod
- ei fod yn cynnig eglurhad ynghylch ble mae'r awdurdod wedi cyrraedd ar eu taith tuag at welliannau, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r asesiadau o boblogaeth
- lle mae amcanion sy'n flaenoriaeth wedi newid o flwyddyn i flwyddyn yn egluro beth sydd wedi digwydd a pham
- ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau lles ar gyfer unigolion
- bod yr adroddiad yn cyd-fynd â fframwaith arolygu newydd AGGCC (gweler para. 2.8 uchod)
- mae'n caniatáu i gymharu'n haws ar draws awdurdodau lleol
- mae yna gyswllt amlwg rhwng yr adroddiad a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- mae'n ei wneud yn haws i awdurdodau lleol rhannu arfer da o ran arddull a chynnwys eu hadroddiadau

7.2 Bydd hyn yn golygu newid yn nhermau strwythur adroddiadau, ond nid yw hyn yn golygu dechrau proses gyfan o'r dechrau. Nid yw'r adroddiad yn ymarfer 'arunig', ond yn ei hanfod mae'n drosolwg sy'n deillio o brosesau awdurdodau lleol, sy'n asesu effeithiolrwydd yn rheolaidd, casglu'r data a gwybodaeth sy'n ofynnol mewn modd trefnus ac yn rhan o gynllunio busnes effeithiol.

## Adran 2 – Defnyddio'r Templed

Isod, mae templed o benawdau'r penodau ar gyfer yr adroddiad, ac, i gynorthwyo awdurdodau lleol, cyfres o anogeiriau a chyngor ynghylch sut i boblogi'r rhan honno o'r adroddiad.

## Cyflwyniad

- Y gofyniad statudol i adrodd
- Yr hyn mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef
- I bwy mae'r adroddiad (gweler paragraffau 4.0 i 4.10 uchod)
- Sut y cysylltwyd â dinasyddion a phartneriaid i fynd ati i'w lunio

## Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Gwerthusiad cryno ar amcanion, yn seiliedig ar dystiolaeth o berfformiad yr awdurdod lleol o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf gan gyfeirio'n ôl at weithgarwch a gynlluniwyd y flwyddyn flaenorol ac yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd.

Cyfeirio fel y bo'n briodol i adroddiadau corfforaethol yn ogystal ag adroddiadau penaethiaid gwasanaethau i oedolion, plant a gwasanaethau busnes

## Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Disgrifiad byr yn egluro:

- pa ddulliau mae'r awdurdod lleol yn eu defnyddio i gael adborth am ei wasanaethau ac ymarfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gan ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid
- sut mae'r bobl hynny wedi llunio a dylanwadu ar ein gwasanaethau
- yr hyn y mae'r adborth hwn yn ei ddweud yn fras o ran amlygu canmoliaeth a meysydd lle nodir gwelliannau a heriau
- sut y mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio adborth hwn i wella
- sut y cyflawnwyd cydbwysedd rhwng sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chael amcanion clir ar gyfer cynllunio gwasanaethau gyda'r trydydd sector a'r sector preifat

## Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo

Dyma adran sylweddol o'r adroddiad sy'n gofyn i awdurdodau lleol drafod perfformiad a chynlluniau yn erbyn pob un o'r 6 safon ansawdd. Tynnir ar yr awgrymiadau o'r Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol a chynnwys y data meintiol ac ansoddol y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei gynnwys yn yr adroddiad yn erbyn pob un o'r safonau.

Safon Ansawdd 1

***Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni***

Mae'r safon ansawdd hwn yn ymwneud â rhannau canlynol o'r Ddeddf GCaLl:

- Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol - Dyletswyddau cyffredinol gan gynnwys lles, gwasanaethau atal ac ataliol, cyngor, gwybodaeth a chymorth a hyrwyddo mentrau cymdeithasol ac ati•
- Rhan 3: Asesiad (gan gynnwys gofalwyr)
- Rhan 4: Diwallu Anghenion
- Rhan 5: Codi Tâl ac Asesiad Ariannol
- Rhan 6: Plant Sy'n Derbyn Gofal a Llety
- Rhan 9: Cydweithredu a Phartneriaeth
- Rhan 10: Eiriolaeth

Dylai'r adroddiad egluro pa mor bell mae'r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- sicrhau mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn ffordd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau yn parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa ar ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

Lle bo hynny'n berthnasol, dylai'r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon ar y themâu canlynol sy'n gyffredin i bob un o'r 6 safon ansawdd

- gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflawni'r safon hon sy'n ymwneud â lles
- ymgysylltu dinasyddion a'r effaith mae hyn wedi ei gael
- ymchwilio ac ymateb i gwynion a hefyd arolygiadau o berfformiad sy'n berthnasol i'r safon hon
- cynnwys y data gofynnol ar berfformiad ar gyfer y safon hon gyda sylwebaeth ategol briodol
- pennu amcanion sydd o flaenoriaeth ar gyfer y safon hon ar gyfer y 12 mis nesaf ac egluro pam y dewiswyd y rheini

Data perfformiad ategol ar gyfer y safon ansawdd hon

**Ansoddol**

- Pobl yn adrodd eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oeddent ei angen
- Pobl yn adrodd eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch
- Pobl gyda chynllun gofal a chymorth yn adrodd eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch enw eu gweithiwr yn y gwasanaethau cymdeithasol
- Pobl yn adrodd eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a chymorth
- Pobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent wedi'i dderbyn

**Meintiol**

- Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn
- Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant a hynny o fewn terfynau amser statudol

Safon Ansawdd 2

***Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddylio a lles emosiynol pobl***

Mae'r safon ansawdd hon yn ymwneud â'r rhannau canlynol o'r Ddeddf GCaLl:

- Rhan 2: mewn perthynas â gwasanaethau lles a gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, gwasanaethau cyngor a chymorth, asesiad o'r angen am ofal a chymorth a chymorth i ofalwyr, hyrwyddo mentrau cymdeithasol ac ati, cofrestrau pobl â nam ar eu golwg, nam ar y clyw a mathau eraill o anableddau
- Rhan 9: Cydweithrediad a Phartneriaeth

Dylai’r adroddiad egluro pa mor bell mae’r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a lles, bod yn actif ac elwa ar ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

Dylai’r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon ar themâu sy’n gyffredin - gweler yr adran dan Safon Ansawdd 1 uchod.

<u>Data perfformiad ategol ar gyfer y safon ansawdd hon</u>

**Ansoddol**

Nid oes unrhyw ofynion data wedi eu nodi ar gyfer y safon hon

**Meintiol**

- Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu hŷn
- Canran yr oedolion a gwblhaodd cyfnod o ail-alluogi a: cael llai o becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach/ heb fod â phecyn gofal 6 mis yn ddiweddarach
- Oed yr oedolion ar gyfartaledd sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl
- Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis o ddechrau derbyn gofal
- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu
- Data perfformiad arall sy'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn cynnwys data lleol

<u>Safon Ansawdd 3</u>

***Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed***

Mae’r safon ansawdd hwn yn ymwneud â’r rhannu a ganlyn o’r Ddeddf GCaLl:

- Rhan 3: Asesiad
- Rhan 4: Diwallu Anghenion
- Rhan 7: Diogelu
- Rhan 9: Cydweithredu a phartneriaeth
- Rhan 10: Eiriolaeth

Dylai’r adroddiad egluro pa mor bell mae’r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- Darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- Datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod

- Rheoli risg mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed (cyfeirio at adroddiadau blynyddol a chynlluniau blynyddol Byrddau Diogelu ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol).
- Eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

Lle'n berthnasol, dylai'r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon o ran themâu cyffredin – gweler yr adran dan safon Ansawdd 1 uchod.

Data perfformiad ategol ar gyfer y safon ansawdd hon

**Ansoddol**

- Pobl yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel

**Meintiol**

- Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol
- Canran y plant sy'n ailgofrestru ar gofrestrau amddiffyn plant yr awdurdod lleol
- Yr amser, ar gyfartaledd a dreuliwyd gan yr holl blant a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn

Safon Ansawdd 4

***Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas***

Mae'r safon ansawdd hon yn ymwneud â Rhan 2 y Ddeddf GCaLl mewn perthynas â lles a gwasanaethau ataliol.

Dylai'r adroddiad egluro pa mor bell mae'r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- Darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- Helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- Annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

Lle'n berthnasol, dylai'r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon o ran themâu cyffredin – gweler yr adran dan safon Ansawdd 1 uchod.

Data perfformiad ategol ar gyfer y safon ansawdd hon

**Ansoddol**

- Pobl yn adrodd eu bod yn medru gwneud yr hyn sydd o bwys iddynt hwy
- Pobl yn adrodd eu bod yn fodlon â'u rhwydweithiau cymdeithasol

**Meintiol**

- Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4
- Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnodau pan oeddent yn derbyn gofal a hynny am resymau nad oeddent yn ymwneud â threfniadau pontio

Safon Ansawdd 5

***Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'r teulu ac ar lefel personol***

Mae'r safon ansawdd hon yn ymwneud â'r rhannau a ganlyn o'r Ddeddf GCaLl:

- Rhan 2: mewn perthynas â lles a gwasanaethau ataliol
- Rhan 3: Asesiad
- Rhan 4:Diwallu Anghenion
- Rhan 7: Diogelu

Dylai'r adroddiad egluro pa mor bell mae'r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- Darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- Helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Lle y bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

Lle'n berthnasol, dylai'r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon o ran themâu cyffredin – gweler yr adran dan safon Ansawdd 1 uchod.

Data perfformiad gofynnol ar gyfer y safon ansawdd hon

**Ansoddol**

- Pobl yn adrodd eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned
- Rhieni'n adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch gofal a chymorth eu plentyn
- Gofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth i barhau â'u rôl fel gofalwyr
- Gofalwyr yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn nyluniad y cynllun gofal a chymorth ar gyfer y person y maen nhw'n gofalu amdano

**Meintiol**

- Canran y plant sy'n cael eu cynorthwyo i barhau i fyw gyda'u teulu
- Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn dilyn cyfnod o ofal yn ystod y flwyddyn
- Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael 3 neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn

Safon Ansawdd 6

***Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion***

Mae'r safon ansawdd hon yn ymwneud â'r rhannau a ganlyn o'r Ddeddf GCaLl:

- Rhan 2: mewn perthynas â lles a gwasanaethau ataliol
- Rhan 3: Asesiad
- Rhan 4:Diwallu Anghenion

Dylai'r adroddiad egluro pa mor bell mae'r awdurdod lleol wedi mynd o ran:

- Darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol.
- Darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw.
- Darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- Darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- Darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

Lle'n berthnasol, dylai'r awdurdod hefyd adrodd yn erbyn y safon hon o ran themâu cyffredin – gweler yr adran dan safon Ansawdd 1 uchod.

Data perfformiad gofynnol ar gyfer y safon ansawdd hon

**Ansoddol**

- Pobl yn adrodd eu bod yn byw yn y cartref sy'n iawn ar eu cyfer
- Plant a phobl ifanc yn adrodd eu bod yn hapus eu bod yn byw gyda'r bobl y maen nhw'n byw gyda hwy
- Pobl yn adrodd eu bod wedi derbyn gofal a chymorth drwy'r iaith o'u dewis
- Oedolion ifanc yn adrodd eu bod wedi cael cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn
- Pobl yn adrodd eu bod wedi dewis byw mewn cartref gofal preswyl

**Meintiol**

- Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 12 mis a 24 mis ar ôl gadael gofal
- Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn

## Sut yr ydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud

**Ein gweithlu a sut yr ydym yn mynd ati i gefnogi eu swyddogaethau proffesiynol**

Er enghraifft, mewn perthynas â'r Ddeddf strategaeth gweithlu sy'n cefnogi dealltwriaeth a gallu i weithredu'r newidiadau, swyddogaethau newydd (ee mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau GCC), gofynion dysgu a datblygu,

**Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol**

Cyllideb, pwysau a blaenoriaethau. Sut mae'r prosesau monitro ac adrodd yn helpu i ganfod newidiadau yn y galw, pwysau costau cysylltiedig a chyfleoedd a sut, yn ei dro, y mae'n llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

**Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd**

Disgrifiad byr yn nodi sut mae arweinyddiaeth wleidyddol, craffu ar lywodraethu a threfniadau her yr awdurdod lleol wedi:

- gosod blaenoriaethau ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol
- hyrwyddo'r cysyniad o les unigolion ar draws swyddogaethau'r awdurdodau lleol
- cefnogi cydweithio a phartneriaeth
- mynd ati'n drylwyr i werthuso perfformiad
- hyrwyddo a chefnogi gwelliant parhaus

Bydd hefyd yn bwysig i nodi sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ymateb i ofynion Rhan 9 o'r Ddeddf a'r Rheoliadau a Chanllawiau Statudol cysylltiedig i gefnogi cydweithio a phartneriaeth effeithiol â'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, trydydd sector a'r sector preifat. Mae'r atodiad yn cyfeirio at berfformiad awdurdodau lleol o ran trafod ac ymchwilio i gwynion a sylwadau. Byddai'n arfer da i fyfyrio yn yr adran hon.

## Cael mynediad at wybodaeth bellach a dogfennau allweddol

Dylai'r adran olaf hon rhestru ble gellir cael hyd i wybodaeth bellach yn electronig a / neu ar ffurf copi caled gyda chroesgyfeiriadau a / neu droednodiadau priodol yn nhestun yr adroddiad. Am mai diben adroddiad blynyddol yw peidio â chynnwys popeth y gellir cael hyd iddo mewn mannau eraill, mae'n bwysig cyfeirio a chefnogi pobl i gael mynediad i wybodaeth ychwanegol a gynhyrchir gan yr awdurdod lleol, ei bartneriaid a chyrff allanol eraill lle bo hynny'n berthnasol.

# Atodiad 1

Gofynion Deddfwriaethol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol

Mae'r Ddeddf RhacA yn gosod isadrannau newydd yn y Ddeddf GCaLl sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei gynnwys yn yr adroddiad:

*"(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys:*

*a) manylion ynghylch sut mae'r awdurdod wedi ymarfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol gan gynnwys manylion am y graddau y mae'r awdurdod wedi*

*i. gweithredu yn unol â'r gofynion a osodwyd ar awdurdodau lleol gan god a gyhoeddwyd dan adran 9 (codau i helpu i gyflawni canlyniadau mewn perthynas â lles)*

*ii. gweithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi'i gynnwys mewn cod a gyhoeddwyd dan adran 145 (codau ynghylch ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) a*

*iii. ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol mewn cod a gyhoeddwyd dan adran 145 a*

*b) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir gan reoliadau.*

*(3) Rhaid i'r manylion a ddarparwyd dan isadran (2) (a) (ii) ddatgan sut mae'r awdurdod wedi diwallu unrhyw ofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolyn, yn unol â Rhan 3 a diwallu anghenion dan Ran 4.*

*(4) Rhaid i adroddiad blynyddol fod ar y ffurf a ragnodir gan reoliadau*

Mae Rheoliadau adroddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (ffurf. ragnodedig) (Cymru) 2016 y cyfeirir atynt uchod *[insert hyperlink when available* yn rhagnodi ffurf yr adroddiad drwy atodi templed y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ei ddilyn. Mae'r templed wedi ei nodi yn Adran 2 yn y canllaw hwn.

Mae'r Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac yn cynnwys data ansoddol a meintiol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei gasglu'n lleol, ei gyflwyno'n flynyddol i Lywodraeth Cymru a'i gynnwys yn yr adroddiad

Mae Rhan 8 y Cod Ymarfer ar Swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) yn dweud bod **rhaid** i'r adroddiad:

- werthuso perfformiad yr awdurdod lleol yn nhermau cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a chynnwys gwersi a ddysgwyd.
- nodi amcanion ar gyfer hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

- cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n egluro sut mae'r awdurdod lleol wedi cyrraedd y chwe safon ansawdd ar gyfer canlyniadau lles (gweler Atodiad 3)
- nodi:
    - sut mae'r awdurdod lleol wedi hyrwyddo lles y bobl sydd angen gofal a chymorth, a'r gofalwyr hynny sydd angen cymorth, fel y canfuwyd yn yr Adroddiad ar Asesiad o'r Boblogaeth ar gyfer ardal yr awdurdod lleol hwnnw
    - i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu'n unol â'r gofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yng Nghod Ymarfer Rhan 3** *(Asesu Anghenion Unigolion* a *Chod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion)*
    - sut mae'r awdurdod lleol wedi ymarfer gofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yng *Nghod Ymarfer Rhan 8** ar Swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol)* i gynnig sicrwydd ynghylch:
- trefniadau strwythurol o fewn yr awdurdod lleol sy'n galluogi llywodraethu da ac atebolrwydd pendant
- gweithio mewn partneriaeth effeithiol drwy Fyrddau Partneriaeth (hefyd *Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth***)
- trefniadau diogelu

- Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddarparu gwybodaeth am:

    - ei berfformiad o ran trafod ac ymchwilio i gwynion a sylwadau fel y nodwyd yn y "Canllawiau ar ymdrin â chwynion a sylwadau gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol" Llywodraeth Cymru 2014.
    - ymateb i unrhyw arolygiadau a gynhaliwyd ar swyddogaethau ei wasanaethau cymdeithasol.
    - Diweddariad ar ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a gweithredu "*Mwy na geiriau*" Llywodraeth Cymru 2012 a'r "Fframwaith dilynol gan Lywodraeth Cymru ar Wasanaethau Iaith Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016"
    - Sut y mae wedi cydymffurfio â'r gofyniad (yn y Cod Ymarfer Rhan 8) i ymgysylltu pobl, yn cynnwys plant sydd ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr, yn y broses o lunio'r adroddiad blynyddol

Yn olaf, o ran yr adroddiad, mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 yn dweud bod rhaid:

- ei gyhoeddi "cyn gynted ag y bo modd gwneud hynny'n rhesymol" ar ôl y flwyddyn y cyfeiria ati
- cyflwyno'r adroddiad i'r cyngor
- anfon copïau i Weinidogion Cymru
- sicrhau ei fod ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

** Mae'r codau hyn i'w gweld ar http://www.cgcymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/?force=2